# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2013/14

**Cynghorydd:** Dilwyn Lloyd **Grŵp:** Llais Gwynedd

**Ward:** Talysarn

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rol a chyfrifoldebau:**
Cynghorydd Sir dros ward Talysarn, ac yn aelod o’r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, Pwyllgor Cynllunio a’r Pwyllgor Trwyddedu.

**Gweithgareddau etholaethol:**

Mae wedi bod yn flwyddyn reit brysur i mi rhwng cyfarfodydd y Cyngor a mynychu cyfarfodydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Yn sgil derbyn cwynion gan Gyngor Plwyf Llandwrog, bu i mi ymgyrchu’n llwyddiannus i gael ail- wynebu’r ffordd heibio Maes Hyfryd yn Carmel. Bu i mi hefyd ymgyrchu’n llwyddianus gyda’r Adran Priffyrdd i gael tarmacio’r ffordd i fyny hebio Trallwyn Teras i gyfeiriad Cilgwyn oherwydd fy mhryder am gyflwr y ffordd. Rwyf hefyd yn y broses o ymgyrchu i gael ail darmacio Ffordd Pisgah, ac mae’r ymgyrch i lenwi ‘pot holes’ yng Ngharmel yn waith parhaus.

Llwyddais hefyd i gael bolards ger Cilgwyn Lodge yn Carmel yn sgil derbyn cwynion gan y perchennog, ynghyd â draen fawr newydd yn Lôn y Bryn Carmel wedi i mi ymgyrchu ar y cyd gyda’r perchennog, ac hefyd draeniau newydd ger Goleufryn yn Carmel.

Rwyf hefyd wedi cyfarfod yn rheolaidd gyda PCSO Julie Holland ac eraill o Heddlu Gogledd Cymru i drafod plismona yn Ward Talysarn.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

Dros y deuddeg mis diwethaf rydw i wedi bod yn aelod o Bwyllgor y Ganolfan yn Nhalysarn. Rwyf hefyd wedi bod yn aelod o Bwyllgor Gardd y Coleg yng Ngharmel

Braf yw cael croesawu’r cynllun Dechrau'n Deg sydd wedi ei sefydlu bellach yn Nhalysarn. Mae Dechrau’n Deg newydd gael hawl cynllunio i adeiladu uned mamau a babanod newydd wrth ochr y Ganolfan yn Nhalysarn.

Hefyd mae cwmni Willmot Dixon gyda swyddfa nawr ym mhentref Carmel gyda swyddog llawn amser yn gweithio yno. Mae’r cynllun Arbed yn mynd ymlaen yn Ngharmel a’r Fron ac mae’r gwaith wedi dechrau ers mis Gorffennaf 2014.

**Bu i mi fynychu’r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 4 |
| Y Cabinet | 1 |
| Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 1 |
| Pwyllgor Cynllunio | 4 |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | 2 |
| Is-Bwyllgor Trwyddedu Canolog | 1 |
| Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 1 |
| Fforwm Ardal Gwyrfai | 2 |

Canran Presenoldeb: 70%

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

-

| **Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y** | **Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd** |
|---|---|

| cyrff allanol canlynol: | canlynol: |
|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri<br>Ysgol Talysarn (Llywodraethwr) | - |

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** |
|---|
| Polisi Gosod Tai a Chyfrifoldebau Statudol |
| Materion Priodoldeb ac Apeliadau Cynllunio |
| |

| **Ychwanegol** |
|---|
| |

Cyfanswm nifer o oriau: 5.5